# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
# GORCHYMYN DIOGELU MANNAU AGORED CYHOEDDUS (ESTYNIAD)

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014
(Pennod 2)

## Yr ardal a elwir “Tref Conwy” ym Mwrdeistref Sirol Conwy

Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2022 (estynedig 2025).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (“y Cyngor”), yn hapus bod yr amodau a nodir yn Adran 59(2) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (“y Ddeddf”) wedi’u bodloni mewn perthynas â’r ardaloedd o fannau agored cyhoeddus yn yr ardal gyfyngedig a ddangosir gan y map atodedig, dan yr enw Tref Conwy, a bod gweithgareddau a gynhaliwyd mewn man cyhoeddus o fewn ardal yr awdurdod wedi achosi trosedd, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal leol. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cael neu'n debygol o gael effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal leol, a'r rhai sy'n ymweld â'r ardal fel lleoliad twristiaeth. Mae’r Cyngor hefyd yn fodlon bod effaith, neu effaith debygol, y gweithgareddau yn, neu’n debygol o fod yn barhaus. Yn ogystal, bod y gweithgareddau hyn yn afresymol ac yn cyfiawnhau’r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn ac mai diben y Gorchymyn hwn yn gyfan gwbl yw lleihau trosedd a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus.

Mae’r Cyngor, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 59 o’r Ddeddf ac o dan bob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y gorchymyn a ganlyn:

**a. Ni chaiff unrhyw un yn yr ardal gyfyngedig wrthod rhoi’r gorau i yfed alcohol, na gwrthod ildio unrhyw gynwysyddion (boed wedi’u selio neu heb eu selio) y credir eu bod yn cynnwys alcohol, pan fo Swyddog Heddlu neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gofyn iddynt wneud hynny.**

**Bydd unrhyw un sy’n methu â chydymffurfio, heb esgus rhesymol, â gofyniad Swyddog Heddlu neu Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel y nodir uchod, yn torri’r Gorchymyn hwn ac yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol neu i Rybudd Cosb Benodedig hyd at £100.**

Daw’r Gorchymyn yn weithredol ar 25 Mai 2025 a daw i rym am gyfnod o 3 blynedd wedi hynny, oni bai y caiff ei ymestyn gan Orchmynion pellach o dan bwerau statudol y Cyngor.

Os bydd unrhyw berson â buddiant yn gofyn am gael cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn, neu i gynnwys unrhyw waharddiadau neu ofynion penodol a osodir gan y Gorchymyn hwn neu na chydymffurfiwyd ag un o ofynion y Ddeddf, yna rhaid iddo ef / iddi hi wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y gwneir y Gorchymyn.

Dyddiedig 9fed Ebrill



…………………………………………………
Peter Brown (Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai)